**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

16 Ionawr 2019

Annwyl Adrian,

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) – GWELLIANNAU CYFNOD 2**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch diweddaru ar welliannau y byddaf yn eu cyflwyno i'r Bil yng Nghyfnod 2, a fydd o ddiddordeb i chi yn benodol.

Roedd paragraff 17 (archwilio) o Atodlen 1 i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yr un fath â pharagraff 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i baragraff 17 a fydd yn cael yr effaith a ganlyn:

Bydd y terfyn amser o bedwar mis ym mharagraff 17 yn parhau i fod yn derfyn amser diofyn, ond bydd gennych hyblygrwydd i gyflwyno copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad ar ôl y terfyn amser hwnnw pan nad yw'n rhesymol ymarferol i gadw at y terfyn amser hwnnw. Pan nad yw'n rhesymol ymarferol i gadw at y terfyn amser hwnnw, bydd yn ofynnol arnoch i:

- osod gerbron y Cynulliad ddatganiad yn esbonio pam nad oedd yn rhesymol ymarferol i gadw at y terfyn amser o bedwar mis (rhaid i'r esboniad hwn gael ei osod cyn y terfyn amser)
- gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Wrth archwilio cyfrifon yr Ombwdsmon, yn ogystal â bod yn fodlon yr aethpwyd yn gyfreithiol i'r gwariant, bydd yn ofynnol arnoch i fodloni eich hun fod yr Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau priodol i ddefnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dileu rhag bod yn awdurdod rhestredig yn Atodlen 3.

Caiff adran 67B newydd ei mewnosod yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gan roi gwarchodaeth yn benodol i chi ac i Swyddfa Archwilio Cymru rhag hawliadau difenwi mewn perthynas â chyfrathrebiadau rhyngoch chi / Swyddfa Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon, pan fo'r cyfathrebiad yn ymwneud ag ymchwiliad ar y cyd a gynhelir gennych chi a'r Ombwdsmon o dan y Bil.

Caiff adran 68(2) o'r Bil ei ddiwygio i ganiatáu i wybodaeth berthnasol gael ei datgelu at ddibenion unrhyw rai o'ch swyddogaethau.

Ar gyfer popeth a grybwyllir uchod, atodaf gopi o'r gwelliannau yr wyf yn bwriadu eu cyflwyno.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

**Atodiad**

Atodlen 1, tudalen 62, hepgorer llinellau 30 hyd at 36 a mewnosoder—

‘(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl i’r cyfrifon gael eu cyflwyno, osod gerbron y Cynulliad gopi ohonynt fel y’u hardystiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghyd ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt (“copi o’r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad”).

(3) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o’r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad gerbron y Cynulliad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) pan na fo’n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4) Pan fo is-baragraff (3) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b), osod gerbron y Cynulliad ddatganiad yn esbonio pam nad yw’n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o’r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad gerbron y Cynulliad cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o’r cyfrifon ardystiedig a’r adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw.

(5) Wrth archwilio cyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y paragraff hwn rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn benodol, fod wedi ei fodloni—

(a) yr aethpwyd yn gyfreithiol i’r gwariant y mae’r cyfrifon yn ymwneud ag ef, ac yn unol â’r awdurdod sy’n llywodraethu’r gwariant, a

(b) bod yr Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau priodol i ddefnyddio adnoddau’r Ombwdsmon yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.’.

Atodlen 3, tudalen 69, hepgorer llinell 10.

Atodlen 5, tudalen 71, ar ôl llinell 32, mewnosoder—

*‘Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p.23)*

[ ] Mewnosoder adran newydd 67B —

**“67B Protection from defamation claims**

For the purposes of the law of defamation, the publication in a communication between the Auditor General for Wales or the Wales Audit Office and the Public Services Ombudsman for Wales of a matter in connection with a joint investigation conducted under section 67(2) of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019, is absolutely privileged.”’.

Adran 68, tudalen 45, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

‘( ) at ddiben unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru;’.